**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**20 IONAWR 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Iau, 20 Ionawr 2022.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Hilary McGuill (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Paul Cunningham, Jean Davies, Carol Ellis, Gladys Healey, Mike Lowe, Dave Mackie, Michelle Perfect a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Marion Bateman a Cindy Hinds

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd ar gyfer Partneriaethau ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Ymgynghorydd Perfformiad Strategol; Uwch Reolwr – Gwasanaethau Integredig ac Arweinydd Oedolion; Uwch Reolwr – Plant a Gweithlu; Swyddog Cynllunio a Datblygu – Plant a Gweithlu; Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu; Rheolwr Cofrestredig Adnoddau a Gwasanaethau Rheoledig (Mark Holt); Prif Weithredwr GOGDdC a Gweithiwr Prosiect Gofalwyr Ifanc - GOGDdC

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a’r Amgylchedd; Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Gymuned ac Addysg a’r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 54. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni dderbyniwyd dim.

## 55. COFNODION

Cyfeiriodd y Cadeirydd at fater a gododd ar dudalen 9 yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2021, yn ymwneud â chryfhau’r berthynas rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Dywedodd y byddai diweddariad yn cael ei roi ym mis Medi unwaith bydd y Swyddog Gofal Iechyd Parhaus newydd wedi’i benodi.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2021, fel y cawsant eu cynnig gan y Cynghorydd Jean Davies a’u heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2021, fel y cawsant eu cynnig gan y Cynghorydd Gladys Healey a’u heilio gan y Cynghorydd Mike Lowe.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 56. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol cyfredol gan nodi y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn y flwyddyn ddinesig newydd ar 9 Mehefin 2022 ac y byddai'r eitemau rheolaidd yn cael eu hystyried yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol unwaith bydd y dyddiadau Pwyllgor newydd wedi'u cytuno arnynt.

Dywedodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd bod y rhan fwyaf o'r eitemau ar yr adroddiad olrhain camau gweithredu wedi'u cwblhau ar wahân i'r eitem ar ddigwyddiadau ymgysylltu gofal sylfaenol a oedd yn parhau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn ystyried y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol drafft a chymeradwyo/newid fel bo'r angen;

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 57. CYNLLUN Y CYNGOR 2022-23

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yr adroddiad a nodi bod y Cynllun Drafft 2022/23 wedi'i adolygu a'i adnewyddu o ran ei gynnwys yn dilyn yr ymateb i'r pandemig a'r Strategaeth Adfer. Dywedodd bod y themâu a'r blaenoriaethau yr un fath ag ar gyfer 2021/22, ond bod rhai datblygiadau gydag is-flaenoriaethau.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol bod yr adroddiad wedi cael ei gytuno arno gan y Cabinet ac, yn dilyn ymgynghoriad gan y Pwyllgor heddiw a'r Pwyllgor Addysg ym mis Chwefror, byddai unrhyw newidiadau i'r adroddiad yn cael eu gwneud yn dilyn adborth. Wedyn rhoddodd wybodaeth fwy manwl o'r adroddiad.

Yn dilyn pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey o ran tai gwag ac effaith digartrefedd ar iechyd a lles pobl, cytunwyd y byddai'r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Gymuned, Tai ac Asedau yn anfon e-bost at y swyddogion perthnasol yn gofyn pa gymorth sydd ar gael i deuluoedd cyn iddynt gael eu rhoi mewn sefydliadau Gwely a Brecwast. Ychwanegodd os nad yw'r adroddiad sy'n mynd i gyfarfod y Gymuned, Tai ac Asedau ym mis Chwefror yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd byddai'n gofyn am ymateb pellach.

Gofynnodd y Cynghorydd Ellis pam nad oedd Gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi'u cynnwys yn y cynllun yn dilyn nifer o geisiadau a gafodd gan breswylwyr ynglŷn â mynediad at y Gwasanaeth. Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod y cynllun yn parhau ar gyfer y flwyddyn wrth

symud ymlaen ac nad oedd yn cynnwys gwasanaethau a oedd yn rhai "busnes fel arfer" lle'r oedd Iechyd Meddwl yn dod o danynt. Dywedodd y byddai unrhyw sylwadau am flaenoriaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a gofal cymdeithasol angen cael eu bwydo i mewn i'r cynllun. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr - Gwasanaethau Integredig ac Arweinydd Oedolion mai un o'r anawsterau oedd bod y Cyngor wedi'i fesur yn erbyn ei berfformiad o fewn y cynllun ond roedd iechyd meddwl yn wasanaeth ar y cyd gydag iechyd yr oeddent yn gweithio gydag yn ogystal â sefydliadau gwirfoddol lle'r oedd nifer ohonynt yn cael eu hariannu ganddynt. Dywedodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol y byddai'n ymgorffori Gwasanaethau Iechyd Meddwl i'r cynllun gan adnabod ei fod yn wasanaeth ar y cyd a ddarperir gydag iechyd.

Cynigiwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Dave Mackie a'u heilio gan y Cynghorydd Paul Cunningham.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn adolygu ac yn rhoi adborth ar gynnwys y themâu wedi'u hadnewyddu ar gyfer Cynllun y Cyngor 2022-23 cyn ei rannu gyda'r Cabinet ym mis Mehefin 2022.

## 58. GWASANAETH CYMORTH GOFALWYR IFANC SIR Y FFLINT

Bu i'r Uwch Reolwr - Plant a Gweithlu atgoffa'r Pwyllgor bod y Gwasanaeth Pobl Ifanc wedi symud i GOGDdC ym mis Gorffennaf 2020 ac, fel y gofynnwyd gan y Pwyllgor, roedd yr adroddiad hwn yn drosolwg o'r canlyniadau cadarnhaol a oedd wedi'u cyflawni i ofalwyr ifanc yn Sir y Fflint.

Rhoddodd y Swyddog Cynllunio a Datblygu - Plant a Gweithlu drosolwg o'r prif lwyddiannau fel y rhestrir yn 1.10 o'r adroddiad ers i'r Gwasanaeth fod yn weithredol.

Rhoddodd Alice Thelwell - Prosiect Gofalwyr Ifanc wybod i'r Pwyllgor am rai o'r uchafbwyntiau dros y 12 mis diwethaf:-

- Lansio'r Cerdyn Adnabod Gofalwyr ym mis Mawrth 2021
- Digwyddiadau a gynhaliwyd
- Digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio
- Creu Llyfryn Lles
- Sesiynau Cwnsela
- Grantiau ar gyfer gofal seibiant

Dywedodd y Prif Weithredwr - GOGDdC, gyda chymorth partneriaethau, mae Gofalwyr Ifanc wedi symud yn llyfn i Wasanaethau Oedolion. Bu iddi ddiolch i'r Uwch Reolwr - Plant a Gweithlu a'r tîm am eu cymorth a chyngor parhaus ar gyllid a oedd wedi'u helpu i gynnig gwasanaethau gwahanol. Roeddent yn gobeithio cynnal Gŵyl Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru eleni ynghyd â theithiau eraill gan fod pethau wedi gorfod cael eu gohirio'r llynedd oherwydd y pandemig.

Dywedodd y Cynghorydd Mackie bod hwn yn wasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda y mae galw mawr amdano sy'n cael ei ddarparu gan bobl frwdfrydig

ond roedd yn cwestiynu'r gyllideb a oedd wedi'i adrodd yn yr adroddiad o'i chymharu â'r galw. Mewn ymateb dywedodd y Prif Weithredwr - GOGDdC mai hwn oedd y Contract a oedd ar waith a'u bod nhw wedi derbyn arian ychwanegol yn y 12 mis diwethaf a oedd wedi galluogi iddynt benodi aelod staff dros dro yr oedd hi'n hyderus y byddai'n awr yn ddiogel oherwydd y cymorth a gafwyd gan yr Uwch Reolwr - Plant a Gweithlu i gael mwy o gyllid ac roedd yn gobeithio penodi aelod arall o staff. Roeddent wedi cael problemau dros yr haf gyda materion staffio nad oedd modd eu hosgoi ond roeddent wedi cael cymorth gan y Gwasanaethau Plant i'w helpu drwyddynt. Dywedodd os yw 'Gweithredu dros Blant' yn llwyddiannus gyda'r Tendr Teulu yn Gyntaf byddai hyn yn galluogi i GOGDdC gael swydd ychwanegol a fyddai'n gam cadarnhaol wrth symud ymlaen.

Cytunodd yr Uwch Reolwr - Plant a Gweithlu ei fod yn gwestiwn teg a godwyd gan y Cynghorydd Mackie a bod y gwasanaeth wedi'i gomisiynu ar y cyllid yr oedd ganddynt. Dywedodd eu bod yn ddioddefwyr o'u llwyddiant eu hunain oherwydd y gwasanaeth ardderchog yr oeddent yn ei ddarparu.

Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn adroddiad ardderchog a bu iddynt ddiolch i'r holl staff a oedd yn rhan o redeg y gwasanaeth.

Cynigiwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Paul Cunningham a'u heilio gan y Cynghorydd Dave Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr Aelodau yn cefnogi cynnydd Gwasanaeth Cefnogi Gofalwyr Ifanc Sir y Fflint a datblygiad y Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc newydd.

## 59. ADRODDIAD GWASANAETHAU RHEOLEDIG MEWNOL

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr - Gwasanaethau Integredig ac Arweinydd Oedolion Mark Holt sef Rheolwr Cofrestredig - Adnoddau a Gwasanaethau Rheoledig y Cyngor sy'n swydd statudol y mae'r holl wasanaethau rheoledig yn gorfod ei gael i gasglu tystiolaeth drwy ymweld â gwasanaethau o leiaf 4 gwaith y flwyddyn i arsylwi a siarad â theuluoedd, preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth i fesur gwasanaethau yn erbyn y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Eglurodd yr Unigolyn Cyfrifol bod yna 84 o reoliadau gwahanol yn cynnwys:-

- Cartrefi Gofal Preswyl Pobl Hŷn
- Tai Gofal Ychwanegol
- Gwasanaeth Gofal Cartref Sir y Fflint
- Gwasanaethau Gofal Tymor Byr i bobl ag anabledd dysgu
- Gwasanaethau Byw â Chymorth

Rhoddodd y Cadeirydd sylwadau ar safon ardderchog y gofal a roddwyd i breswylwyr gan nad oedd unrhyw achosion o COVID o fewn y gwasanaeth Byw â Chymorth.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cadeirydd yn ymwneud â'r 17 o dai byw â chymorth, cadarnhaodd y Rheolwr Cofrestredig - Adnoddau a

Gwasanaethau Rheoledig bod newid wedi bod dros y 5 mlynedd diwethaf gan fod tŷ ychwanegol wedi'i agor i wneud lle i unigolyn. Nid oedd unrhyw gynlluniau i newid dros y 5 mlynedd nesaf gan y bydd angen i unrhyw adolygiad o'r gwasanaeth fod yn gynhwysfawr.

Roedd y Cynghorydd Mackie yn awyddus i weld ymweliadau rota yn dychwelyd fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad a byddai'n hoffi diweddariad ar y cynnydd ar gofnodion digidol yn yr adroddiad nesaf. Mynegodd y Cynghorydd Mackie y farn bod angen buddsoddi mewn cofnodion digidol. Gofynnodd hefyd i gynnydd yn y maes hwn gael ei fonitro gan y Pwyllgor wrth symud ymlaen. Bu iddo hefyd ddangos pryder a hoffai weld mwy o wybodaeth am y gwiriad cyn ymweld sydd newydd ei gyflwyno ar gyfer gofal tymor byr mewn adroddiad yn y dyfodol. Cytunodd Cadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd Hilary McGuill, ei fod yn hen bryd i gofnodion fod yn ddigidol, ac roedd yr holl aelodau yn cytuno â hynny.

Mewn ymateb cyfeiriodd y Prif Swyddog at y Grŵp Strategaeth Ddigidol a dywedodd bod yr Uwch Reolwr - Plant a Gweithlu angen gwneud y grŵp yn ymwybodol bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd wedi gofyn i'r maes gwasanaeth hwn gael ei flaenoriaethu gan y Cyngor.

Cynigiwyd argymhelliad (a) yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Jean Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Dave Mackie.

Cynigiwyd argymhelliad (b) yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Gladys Healey a'i eilio gan y Cynghorydd Mike Allport.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Aelodau yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad, ac yn cytuno bod y AGC blynyddol yn dychwelyd ar berfformiad y gwasanaeth ac y dylai bodloni'r rheoliad fod yn adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor; a

(b) Bod ymweliadau rota'r Aelodau yn cael eu hail-sefydlu, os yw'r pandemig yn caniatáu hynny, yn 2022.

## 60. ASESIAD O ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU AC ADRODDIAD AR SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD

Yn gyntaf bu i'r Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) ddiolch i Emma Murphy a Katrina Shanka am greu'r adroddiad a oedd yn ofyniad yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ar Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 sy'n asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth ac anghenion cymorth gofalwyr ar draws Gogledd Cymru. Dywedodd y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiadau gwasanaeth mewn blynyddoedd i ddod.

Eglurodd yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu bod y ddogfen wedi bod drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyn dod i'r Pwyllgor hwn ac y byddai wedyn yn mynd i Bwyllgor Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd. Pwysleisiodd bod amserlenni wedi bod yn dynn oherwydd effaith y pandemig a bod disgwyl iddo

gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill. Dywedodd bod yr adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn a bod y ddogfen wedi'i groesawu.

Rhoddodd y Swyddog Cynllunio a Datblygu - Plant a Gweithlu sicrwydd i'r Aelodau nad oedd y ddogfen wedi'i seilio ar ganlyniadau'r arolwg ar-lein yn unig ond ei fod o gyfoeth o adroddiadau a staff gwybodus yn ogystal ag ymgynghoriadau a gynhaliwyd dros y 5 mlynedd diwethaf.

Cytunodd y Cadeirydd a'r Pwyllgor ei fod yn ddogfen ardderchog a fyddai'n cael ei ddefnyddio'n dda fel dogfen gyfeirio.

Cynigiwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Gladys Healey a'u heilio gan y Cynghorydd Dave Mackie.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod Aelodau yn cefnogi Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Chwefror 2022 a

(b) Bod Aelodau yn cefnogi'r broses ar gyfer cymeradwyo'r Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Ranbarthol a derbyn adroddiad gwybodaeth pan fydd ar gael.

## 61. <u>PROSIECT MICRO-OFAL SIR Y FFLINT</u>

Dywedodd yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu bod nifer o awdurdodau lleol yn wynebu pwysau o ran bodloni'r galw cynyddol am ofal cymdeithasol, gyda'r boblogaeth hŷn sy'n tyfu ac asiantaethau gofal yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw gweithwyr a bod darparu gofal i rannau mwy gwledig o'r Sir yn gallu bod yn broblemus. Sefydlwyd mentrau meicro-ofal yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb a chael cyllid gan Gadwyn Clwyd a Llywodraeth Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Mackie ei fod yn adroddiad ardderchog gyda straeon o lwyddiant sylweddol clir ac roedd wedi nodi bod yr angen mewn dau faes sef yr angen am gymorth a'r angen am ddarparwyr wedi'u dangos yn y datganiadau yn yr adroddiad. Mewn ymateb i gwestiwn a gododd am y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol a rheol 4 dywedodd yr Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu eu bod wedi cael llawer o sgyrsiau gydag AGC yn ceisio cael meicro-ofal nad oedd wedi'i gynnwys yn y Ddeddfwriaeth ar y pryd. Roedd AGC yn gefnogol iawn ond yn amlwg roeddent wedi'u clymu gan y ddeddfwriaeth. Gobeithiwyd mewn amser y byddai'r Ddeddfwriaeth yn dal i fyny os byddai mwy o awdurdodau lleol yn darparu Meicro-ofal.

Dywedodd y Cynghorydd Christine Jones ei bod yn falch iawn i fod yn un o'r awdurdodau cyntaf i roi'r cynllun ar waith. Roedd y Cadeirydd yn falch fod dau o ddarparwyr Meicro-ofal wedi bod mor llwyddiannus nes ffurfio eu hasiantaethau gofal cartref eu hunain.

Cynigiodd y Cynghorydd Gladys Healey yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Paul Cunningham.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod yr Aelodau yn parhau i gefnogi'r cynnydd a wnaed wrth gyflwyno'r cynllun peilot Meicro-ofal arloesol a chyfraniad cadarnhaol y cynllun i fodloni'r galw am ofal yn Sir y Fflint.

## 62. PROSIECT TRAWSNEWID GWASANAETHAU PLANT

Rhoddodd yr Uwch Reolwr - Plant a Gweithlu ddiweddariad i'r Pwyllgor ar Gam 2 o'r Rhaglen Drawsnewid fel y gofynnwyd yn y Pwyllgorau Craffu diwethaf. Eglurodd y byddai'r rhaglen yn cael ei darparu yn 2022. Y materion allweddol oedd:-

- Gwerthusiad annibynnol o'r Tîm Therapi Aml-systemig presennol
- Agor Canolfan Asesu Preswyl Cofrestredig ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam "Tŷ Nyth"
- Fflat mewn argyfwng ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam yn darparu llety brys cofrestredig a chymorth mewn argyfwng
- Ail Dîm Therapi Aml-systemig yn darparu asesiadau a therapi i adeiladu gwydnwch a chefnogi'r gwaith o aduno teuluoedd a 'symud ymlaen' o Dŷ Nyth
- Cartref Plant cofrestredig yn darparu lleoliadau hirdymor i hyd at 4 o blant o Sir y Fflint mewn amgylchedd cartrefol a sefydlog.

Mewn perthynas â chwestiwn a godwyd gan y Cadeirydd, roedd yr Uwch Reolwr - Plant a Gweithlu yn rhagweld y byddant yn weithredol erbyn yr hydref 2022 unwaith y bydd cofrestriad AGC wedi'i gymeradwyo. Yna bydd adroddiad pellach ar gynnydd yn cael ei ddarparu.

Cynigiodd y Cynghorydd Gladys Healey yr argymhellion yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Jean Davies.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod yr Aelodau yn nodi'r cynnydd a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig ar gyfer y Gronfa Drawsnewid.

Roedd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) eisiau diolch i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd am eu harweinyddiaeth ynghyd ag aelodau o'r Pwyllgor am eu cefnogaeth. Ymatebodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd drwy ddweud eu bod yn falch iawn o fod yn aelodau o'r Pwyllgor ac y byddant yn hoffi diolch i'r holl staff a'r cyfranogwyr a oedd wedi gwneud y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn un llwyddiannus.

## 63. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 3.42 pm)

..................................................

**Cadeirydd**